**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

476/65

# HANES – HI6

## UNED 6 (Asesiad Synoptig)

## ASTUDIAETH FANWL 3

## DIWYGIO A PHROTEST YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1830-1848

A.M. DYDD GWENER, 23 Mehefin 2006

50 munud (o arholiad 1 awr 40 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau neu'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

**UNED 6**

**ASTUDIAETH FANWL 3**

**DIWYGIO A PHROTEST YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1830-1848**

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

*Atgoffir ymgeiswyr y dylai eu hatebion ddangos ymdriniaeth synoptig o'r cwestiwn sy'n dwyn ynghyd, lle bo'n addas, agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol a diwylliannol ar y testun.*

**1. Mudiadau protest o blaid diwygio'r Senedd, tua 1830-1848**

*Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.*

Ffynhonnell A

'Y mae adroddiadau'n dangos bod y dosbarthiadau gweithiol yn rhagweld newid llwyr mewn cymdeithas. Maent yn anelu at fod ar frig y gymdeithas yn lle bod ar ei gwaelod – neu'n hytrach ni ddylai fod gwaelod na brig o gwbl.'

[Bronterre O'Brien, radical Gwyddelig, yn ysgrifennu mewn papur newydd dosbarth gweithiol, *The Poor Man's Guardian* (1833)]

Ffynhonnell B

'Roedd bygythiad *(menace)* Siartiaeth yn llawer llai na bygythiad y diwygwyr radicalaidd yn 1831-1832. Gan fod y dosbarthiadau canol bellach ynghlwm wrth *(securely hitched to)* y cyfansoddiad, nid oedd gan Aelodau Seneddol unrhyw reswm dros bleidleisio oherwydd ofn neu bryder.'

[E. Evans, hanesydd academaidd, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr hanes cyffredinol, *The Forging of the Modern State, 1783-1870* (1983)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli mudiadau protest o blaid diwygio'r Senedd yn y cyfnod hwn? [80]

CYDNABYDDIAETH

Atgynhyrchir Ffynhonnell B gyda chaniatâd caredig Pearson Education Ltd.

**2. Newid cymdeithasol, tua 1830-1848**

*Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.*

Ffynhonnell A

'Byddai'r pwyllgor hwn yn sylwi, yng nghanol yr hyn a ymddengys yn gymuned gyfoethog, ysbrydoledig a ffyniannus, fod tyrfa anferth o gyd-ddeiliaid tlotach wedi eu condemnio i ysgelerder *(evils)* clefyd a thrueni ac wedi eu gosod mewn sefyllfaoedd lle mae'n anymarferol iddynt gynnal iechyd a gwedduster a'u cadw eu hunain a'u plant rhag haint corfforol neu farwol.'

[Rhan o adroddiad y llywodraeth gan Bwyllgor Dethol Seneddol ar gyflwr trefi a dinasoedd (1840)]

Ffynhonnell B

'Yn hollol ar wahân i bolisi llywodraethol, roedd bywiogrwydd cynhenid economi ehangol yn ddigon i ddwyn y wlad yn ddiogel drwy'r stormydd a wnaeth Ewrop yn ganolbwynt chwyldro yn 1848. Erbyn 1850 gallai'r Gofrestr Flynyddol sôn, heb optimistiaeth ormodol, am amodau gwaith a byw gwell, a llonyddwch a dyfodol calonogol y genedl Brydeinig.'

[Asa Briggs, hanesydd academaidd, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr myfyrwyr,
*The Age of Improvement* (1959)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli newid cymdeithasol 1830-1848? [80]